

Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2017

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN Y SIAMBR, **NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN AM 10.00 AM.** AR **DYDD MERCHER, 26AIN EBRILL, 2017** ER MWYN CYFLAWNNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Mark James DYB

PRIF WEITHREDWR



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	Janine Owen
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224030
E-bost:	JanineOwen@sirgar.gov.uk
Cyf:	AD016-001



EICH CYNGOR arleinamdanî

www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitononline

www.carmarthenshire.gov.wales

A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD/ARWEINYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-
 - 4 .1 22AIN CHWEFROR, 2017; 5 - 20
 - 4 .2 8FED MAWRTH, 2017. 21 - 26
5. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-
 - 7 .1 POLISI INCWM A CHODI TÂL. 27 - 38
 - 7 .2 NEWID I'R POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW. 39 - 50
8. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-
 - 8 .1 27AIN CHWEFROR, 2017; 51 - 56
 - 8 .2 13FED MAWRTH, 2017; 57 - 60
 - 8 .3 27AIN MAWRTH, 2017; 61 - 68
 - 8 .4 10FED EBRILL, 2017. 69 - 72
9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:-
 - 9 .1 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), (CHWEFROR, 2017) 73 - 86
10. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)
 - 10 .1 PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD (YR HOLL BWYLLGORAU CRAFFU) - 15EG CHWEFROR 2017

- 10 .2 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 17EG CHWEFROR 2017 & 30AIN MAWRTH 2017**
- 10 .3 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 20FED CHWEFROR 2017 & 5ED EBRILL 2017**
- 10 .4 Y PWYLLGOR APÊL 24AIN CHWEFROR 2017 & 27AIN CHWEFROR 2017**
- 10 .5 Y PWYLLGOR CRAFFU - DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 3YDD MAWRTH 2017**
- 10 .6 Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD - 6ED MAWRTH 2017**
- 10 .7 Y PWYLLGOR CYNLLUNIO - 9FED MAWRTH 2017, 21AIN MAWRTH 2017 & 6ED EBRILL 2017**
- 10 .8 PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - 14EG MAWRTH 2017**
- 10 .9 Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 15FED MAWRTH 2017**
- 10 .10 IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'C' - 16EG MAWRTH 2017**
- 10 .11 Y PWYLLGOR SAFONAU - 17EG MAWRTH 2017**
- 10 .12 Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 22AIN MAWRTH 2017**
- 10 .13 Y PWYLLGOR ARCHWILIO - 24AIN MAWRTH 2017**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

DYDD MERCHER, 22AIN CHWEFROR, 2017

YN BRESENNOL: Cyngorydd E. Morgan [Cadeirydd]

Y Cyngorwyr:-

S.M. Allen	D.J.R. Bartlett	S.M. Caiach	C.A. Campbell
J.M. Charles	A.P. Cooper	D.M. Cundy	A. Davies
D.B. Davies	G. Davies	I.W. Davies	S.L. Davies
W.R.A. Davies	T.T. Defis	T. Devichand	E. Dole
J.S. Edmunds	P.M. Edwards	D.C. Evans	L.D. Evans
W.J.W. Evans	W.T. Evans	M. Gravell	A.D. Harries
C.P. Higgins	W.G. Hopkins	J.K. Howell	P. Hughes-Griffiths
P.M. Hughes	I.J. Jackson	A. James	J.D. James
D.M. Jenkins	J.P. Jenkins	A.W. Jones	G.O. Jones
H.I. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis	D.J.R. Llewellyn
K. Madge	J. Owen	P.A. Palmer	D.W.H. Richards
B.A.L. Roberts	H.B. Shepardson	A.D.T. Speake	L.M. Stephens
E.G. Thomas	G.B. Thomas	J. Thomas	M.K. Thomas
R. Thomas	S.E. Thomas	W.G. Thomas	D. Tomos
J. Tremlett	D.E. Williams	J. Williams	J.E. Williams
J.S. Williams			

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

Mr M. James	- Y Prif Weithredwr
Mr C. Moore	- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mr G. Morgans	- Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Dros Dro
Mr O. Bowen	- Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
Mr J. Fearn	- Pennaeth Eiddo
Ms L. Quelch	- Pennaeth Cynllunio
Ms L. Rees Jones	- Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr R. Staines	- Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Mr P. Thomas	- Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
Ms W. Walters	- Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
Mrs M. Evans Thomas	- Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambrau, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 1.00 p.m. a 2.00 p.m. - 3.20 p.m.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr J.A. Davies, T. Davies, H.A.L. Evans, P.E.M. Jones, T.J. Jones, W.J. Lemon, S. Matthews, A.G. Morgan, D. Price a G. Thomas.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cyngorydd Gwyneth Thomas yn gwella'n dda yn dilyn ei llawdriniaeth, a chytunodd y Cadeirydd i anfon neges ati ar ran y Cyngor yn dymuno adferiad buan iddi.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
J.S. Edmunds	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei ferch yn gweithio mewn ysgol.
D.C. Evans	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei wraig yn gweithio yn y Ganolfan Alwadau.
L.D. Evans	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei merch yn athrawes yn un o ysgolion yr Awdurdod.
P. Hughes Griffiths	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei ferch yn athrawes yn y sir.
G.O. Jones	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei wraig yn bennaeth yn y sir.
K. Madge	10 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2017/18 tan 2019/20	Mae ei ferch yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol.
H.B. Shepardson	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei ferch yn athrawes yn un o ysgolion yr Awdurdod.
J. Thomas	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei ferch yn athrawes yn y sir.
D.O. Tomos	18 - Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 23 Ionawr, 2017 (cofnod 9)	Mae ei ferch yn athrawes yn y sir.
J. Williams	10 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2017/18 tan 2019/20	Mae'n ofalwr di-dâl i'w gŵr.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD / ARWEINYDD

3.1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Bu i'r Cadeirydd longyfarch y Cyngorydd Kevin Madge a'i deulu ar enedigaeth ei wyr, Jac;
- Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-Gynghorydd Sir, Jimmy Morgan, Hendy-gwyn ar Daf, a oedd wedi marw'n ddiweddar.
- Cydymdeimlwyd â'r cyn-Gynghorydd Sir, Gerald Meyler, a'i deulu ar farwolaeth ei wraig, Elaine;
- Cafodd y swyddogion oedd yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Dyfed eu llonyfarch ar eu llwyddiant o ran cyflawni statws annibynnol i Gymru o dan y rheoliadau pensiwn newydd a gyflwynwyd gan y llywodraeth ganolog yn ddiweddar;
- Cyfeiriwyd at Bostfeistr Hendy-gwyn ar Daf a'i wraig, sef Mr a Mrs Parri-Roberts, a oedd newydd ymddeol ar ôl 53 mlynedd o wasanaeth. Diolchwyd iddynt am eu hymroddiad a dymunwyd yn dda iddynt yn y dyfodol.

3.2. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Dyweddodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod sefydlogrwydd a darparu gofal am gyfnod hwy yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r sawl sy'n gadael gofal. Cafodd cynllun "*Pan Fydda i'n Barod*", sy'n galluogi pobl ifanc i aros gyda gofalwyr maeth hyd nes eu bod yn 21 oed, ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2013-14 a'i roi ar waith ar draws Cymru yn 2015. Ers 2016 roedd pobl ifanc yng Nghymru wedi cael yr hawl i aros mewn gofal maeth hyd nes eu bod yn 21 oed. Roedd "*Gweithredu dros Blant*" yn cefnogi'r newid hwn drwy ymgrych "*Cyfle i Aros*" yr Awdurdod, a oedd eisoes wedi gwneud gwahaniaeth mawr iawn i bobl ifanc a ddymunai aros mewn cartrefi maeth sefydlog a theuluol.

Fodd bynnag ni fyddai pob person ifanc oedd yn gadael gofal yn elwa ar y diwygiadau hyn, ac roedd perygl y cāi rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed, nad oedd eu bywyd mewn gofal wedi bod yn sefydlog, eu heithrio. Roedd angen gwneud mwy i glustnodi'r ffyrdd gorau o'i gwneud yn bosibl i bawb oedd yn gadael gofal aros mewn llety sefydlog, gan gynnwys gofal preswyl, neu symud i dŷ gan gael cymorth a hyblygrwydd. I roi cymorth effeithiol i bobl ifanc yn eu harddegau sydd mewn gofal neu sydd ar gyrrion gofal, mae angen buddsoddi adnoddau'n effeithiol ac mae angen ymyriadau cynnar i atal argyfngau yn y dyfodol.

Yn Sir Gaerfyddin rydym yn sylweddoli bod angen rhywle diogel ac addas i fyw ar bobl ifanc sy'n gadael gofal, er mwyn eu helpu i dyfu'n oedolion mewn modd cadarnhaol. Wedi'r cyfan mae tai da yn sail i lwyddiant ym meysydd eraill bywyd.

Mae rhai gwendidau wedi cael eu nodi o ran ansawdd a lleoliad yr opsiynau tai â chymorth sydd ar gael i'r sawl sy'n gadael gofal yn Sir Gaerfyddin, ac mae'r panel rhianta corfforaethol wedi mynegi eu pryderon ar fwy nag un achlysur.

Dyweddodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod gwaith yn mynd rhagddo yn yr Awdurdod ar y mater hwn, a bod swyddogion o'r is-adran cefnogi pobl yn aros ar hyn o bryd am fanyleb fanwl gan y gwasanaethau plant yngylch ail-gomisiynu rhai prosiectau. Roedd swm sylweddol o arian wedi cael ei neilltuo i adran y gwasanaethau plant i'r perwyl hwn.

Er nad oedd dim rhwystro ran angen i unrhyw un oedd yn gadael gofal gael fflat neu dŷ, yr her oedd sicrhau eu bod yn barod i fyw'n annibynnol a'u bod yn cael eu rhoi yn y lleoliad iawn.

Dymunai'r Arweinydd ei gwneud yn glir y byddai datganiad polisi yn cael ei wneud gan y Bwrdd Gweithredol, a fyddai'n ategu ymrwymiad yr Awdurdod i ddarparu tai addas i'r grŵp hwn o bobl ifanc fel mater o flaenoriaeth.

4. COFNODION

4.1. 18EG IONAWR, 2017

Cyfeiriwyd at y ffaith bod enw'r Cyngor ar goll o'r rhestr o aelodau oedd wedi pleidleisio o blaid y gwelliant a'r rhestr o aelodau oedd wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig (gweler cofnod 11.1).

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor oedd wedi ei gynnal ar 18 Ionawr, 2017 yn gywir, yn amodol ar gynnwys y newid uchod.

4.2. 25AIN IONAWR, 2017

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor oedd wedi ei gynnal ar 25 Ionawr, 2017 yn gywir, yn amodol ar gynnwys y newid uchod.

5. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD SIAN CAIACH:-

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sian Caiach:-

"Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau ei ymrwymiad i iechyd y cyhoedd a diogelwch nofwr a defnyddwyr traethau lle gall fod risg yn sgil dŵr halogedig. Er mwyn gwella'r gwasanaeth presennol, ein bwriad yn y dyfodol yw profi nid yn unig traethau ymdrochi dynodedig ond traethau eraill a ddefnyddir gan y cyhoedd lle mae unrhyw amheuaeth ynghylch ansawdd dŵr gwael. Yn y dyfodol, dylid monitro rhai traethau heb eu dynodi yn y tymor nofio. Yn benodol, byddwn yn monitro'r rheiny ger traethau ymdrochi lle ceir darleniadau uchel o ran bacteria a hefyd traethau ymdrochi nad ydynt wedi eu dynodi lle cafwyd darleniadau uchel o ran bacteria yn y gorffennol. Yn y bôn, dylid trin traethau a ddefnyddir gan y cyhoedd lle mae unrhyw risg o ran iechyd yr un peth â thraethau ymdrochi at ddibenion monitro os oes amheuaeth ynghylch halogiad."

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynig yd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Yn sgil cael cais gan fwy na 10 o aelodau, yn unol â Rheol 16.4 o Weithdrefnau'r Cyngor, cynhaliwyd pleidlais gofnodedig gyda'r pleidleisiau yn cael eu bwrw fel a ganlyn:-

O blaid y Cynnig (31)

Y Cyngorwyr D.J.R.Bartlett, S.M. Caiach, C.A. Campbell, J.M. Charles, A. P. Cooper, D.M. Cundy, A. Davies, G. Davies, S.L. Davies, T. Devichand, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, D.C. Evans, A.D. Harries, C.P. Higgins, J.K. Howell, J.D. James, J.P. Jenkins, A.W. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, E. Morgan, J. Owen, B.A.L. Roberts, H.B. Shepardson, A.D.T. Speake, M.K. Thomas, R. Thomas, W.G. Thomas, J. Williams a J.S. Williams.

Yn erbyn y Cynnig (25)

Y Cyngorwyr D.B. Davies, I.W. Davies, T.T. Defis, E. Dole, L.D. Evans, W.J.W. Evans, W.T. Evans, M. Gravell, P. Hughes Griffiths, P.M. Hughes, I.J. Jackson, A. James, D.M. Jenkins, G.O. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, D.J.R. Llewellyn, P.A. Palmer, D.W.H. Richards, L.M. Stephens, J. Thomas, S.E. Thomas, J. Tremlett, D.E. Williams a J.E. Williams.

Ymataliadau (6)

Y Cyngorwyr S.M. Allen, W.R.A. Davies, W.G. Hopkins, E.G. Thomas, G.B. Thomas a D. Tomos.

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod y mater y cyfeiriwyd ato yn y Rhybudd o Gynnig yn swyddogaeth weithrediaeth ac o'r herwydd fod y Cyngor ond yn gallu cyfeirio'r mater at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.

PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei fabwysiadu.

6. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD PETER HUGHES GRIFFITHS:-

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Peter Hughes Griffiths:-

"Mae gwir angen rhoi sylw arbennig ac uniongyrchol i'n hardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Felly, bod y Cyngor hwn yn sefydlu GWEITHGOR CEFN GWLAD a fyddai'n cynnwysaelodau o'r tri Grŵp sydd ar y Cyngor. Byddai'r Gweithgor (o ddilyn patrwm y Gweithgor laith) yn medru ymchwilio i sefyllfa ein hardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin trwy gasglu gwybodaeth, ymchwilio a gwahodd a derbyn tystiolaeth, cyn cyflwyno maes o law strategaethau, polisiau a chynllun gweithredu ger bron y Cyngor llawn."

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigiyyd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Cynigiwyd y Gwelliant canlynol i'r Cynnig gan y Cyngorydd Jeff Edmunds ac eiliwyd y gwelliant:-

"Mae gwir angen rhoi sylw arbennig ac uniongyrchol i'n hardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin, ond hefyd ceir problemau sy'n gyffredin ledled ein sir megis tlodi a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus addas y mae angen inni roi sylw iddynt hefyd. Gofynnwn i'r Cyngor hwn sefydlu gweithgor sy'n cynnwysaelodau o bob plaid yn y sir i edrych ar y materion y mae pawb yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Byddai'r Gweithgor (o ddilyn patrwm y Gweithgor laith) yn medru ymchwilio i sefyllfa ein hardaloedd gwledig a threfol yn Sir Gaerfyrddin trwy gasglu gwybodaeth, ymchwilio a gwahodd a derbyn tystiolaeth, cyn cyflwyno maes o law strategaethau, polisiau a chynllun gweithredu ger bron y Cyngor llawn."

Rhoddwyd cyfle i gynigiyyd ac eilydd y Gwelliant siarad o blaid y Gwelliant a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno.

Gwnaed nifer o ddatganiadau o blaid ac yn erbyn y Gwelliant a'r Cynnig.

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod y mater y cyfeiriwyd ato yn y Rhybudd o Gynnig yn swyddogaeth weithrediaeth ac o'r herwydd fod y Cyngor ond yn gallu cyfeirio'r mater at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.

Yn dilyn pleidlais

PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Gwelliant i'r Cynnig.

Yna pleidleisiodd y Cyngor ar y Cynnig terfynol a

PHENDERFYNWYD ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei fabwysiadu.

7. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY:-

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Alun Lenny:-

"Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod yr emynydd William Williams, Pantycelyn, Sir Gaerfyrddin, fel un o'r Cymry mwyaf a fu erioed ac yn ymrwymo i gynnal achlysur arbennig i ddatlu trichanmlwyddiant ei eni er mwyn cydnabod ei gyfraniad anferth i emynyddiaeth ar raddfa ryngwladol a'i effaith ar fywyd ein cenedl, yn ogystal ag hyrwyddo gwybodaeth am ei fywyd a'i waith mewn pob cyhoeddusrwydd addas a phosibl gan y cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn."

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynig yd ac eilydd y Cynnig siarad o blaidd y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod y mater y cyfeiriwyd ato yn y Rhybudd o Gynnig yn swyddogaeth weithrediaeth ac o'r herwydd fod y Cyngor ond yn gallu cyfeirio'r mater at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.

PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei fabwysiadu.

8. CWESTIYNAU GAN AELODAU

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

10. STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2017/18 - 2019/20

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr K. Madge a J. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017 (gweler Cofnod 5), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2017/18 hyd at 2019/20 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, lle rhoddodd y cefndir ar gyfer cynigion y gyllideb oedd yn cael eu cyflwyno at ystyriaeth y Cyngor, gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf o ran Setliad Llywodraeth Cymru, adborth ar y broses ymgynghori ynghylch y gyllideb ynghyd â diweddariadau ar dwf a data diliysu.

Dywedodd fod yr Awdurdod, ers sawl blwyddyn, wedi cydnabod y sefyllfa gyllido anodd roedd yn ei hwynnebu, ynghyd â'r angen i wneud pethau'n wahanol a blaenoriaethu sut roedd yn dymuno gwario ei adnoddau prin.

Mae'r cynllun ariannol tymor canolig am y 3 blynedd diwethaf wedi cael ei seilio ar setliadau ariannol negyddol rhwng -1% a -3.8%, sydd wedi gwaethyg bob blwyddyn drwy'r ymrwymiadau cynyddol ar feysydd gwasanaeth amrywiol yr Awdurdod, megis gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wastad wedi gallu penu cyllideb gytbwys er gwaethaf bod llai o adnoddau, gan gynnal safonau gwasanaethau ar yr un pryd i raddau helaeth.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ein bod ni ond wedi cael setliad am flwyddyn eleni eto, ac er ein bod wedi bod yn ffodus eleni i gael setliad arian parod digfnewid, roeddid yn rhagweld y byddai setliadau negyddol yn dychwelyd i lywodraeth leol yn y blynnyddoedd i ddod. Felly fe ategodd fod angen parhau i ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd neu leihau costau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a phennu cyllideb gytbwys i'r dyfodol.

Dywedodd fod y setliad terfynol wedi dod i law ar 21 Rhagfyr ac roedd yn falch cadarnhau bod y setliad eleni yn fwy ffafriol a chefnogol i lywodraeth leol na'r hyn roeddid wedi ei ddisgwyl yn wreiddiol, a hynny yn achos Llywodraeth Cymru a lywodraeth leol. Felly roedd hyn yn golygu bod y Bwrdd Gweithredol wedi gallu rhoi sylw eilwaith i rai o'r cynigion yn amlinelliad y gyllideb wreiddiol ac ystyried opsiynau pellach. Fodd bynnag, gan mai ar gyfer blwyddyn yn unig roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau, roedd y gallu i ragweld yn y tymor canolig o fewn y cynllun ariannol tymor canolig wedi'i gyfyngu.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr Awdurdod - wrth ymateb i'r gwasgfeydd parhaus a'r lleihad go iawn o ran y cyllid, ynghyd â sicrhau ar yr un pryd fod y cynnydd o ran y Dreth Gyngor cyn lleied ag y bo modd - wedi gorfod dal ati i chwilio am arbedion effeithlonrwydd o ran y modd yr oedd yn darparu gwasanaethau ac, yn anffodus, mewn rhai achosion, wedi gorfod edrych ar lefel y gwasanaethau. Yn y 3 blynedd diwethaf roedd tua £37m o wariant cylchol wedi ei naddu o wariant blynnyddol y Cyngor a byddai'r duedd honno'n parhau dros y tair blynedd nesaf, gyda lleihad pellach o £25m, gan gymryd bod lleihad o 1% o ran y cyllid i lywodraeth leol yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Hefyd cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at yr ymgynghori eang ynghylch y gyllideb a oedd wedi rhoi bod i adborth sylweddol ar y cynigion gwreiddiol a roddwyd gerbron. Roedd yn glir bod y bobl leol oedd yn rhan o'r broses ymgynghori yn sylweddoli bod angen gwneud penderfyniadau anodd.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r ffaith bod yr Awdurdod wedi elwa ar setliad cadarnhaol, newidiadau mewn diliysu, a chyfile i adolygu'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, yr oeddent oll gyda'i gilydd wedi peri i sefyllfa'r Awdurdod o ran y gyllideb fod yn un gadarnhaol. Roedd y Bwrdd Gweithredol wedi argymhell rhai newidiadau

i'r cynigion cychwynnol a ystyriwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, ac roedd y rhain wedi'u manylu yn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Dywedodd y byddai mabwysiadu'r cynigion yn golygu y byddai'r gyllideb £1.92m yn fwy, ac yn cydnabod ac ymateb i'r pryderon sylweddol a fyngwyd yn y broses ymgynghori. Gyda'r newidiadau hyn, argymhellodd fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn parhau ar y lefel a gynigiwyd sef 2.5%, a gefnogwyd gan y mwyafir o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

Egluodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod tri amcan clir mewn golwg gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol drwy gydol proses y gyllideb sef:-

1. paratoi'r Awdurdod ar gyfer unrhyw ostyngiadau mewn cyllid a allai ddod;
2. sicrhau cyn belled ag y gellir fod lefelau a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal;
3. cydnabod bod ein dinasyddion hefyd yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni a lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor.

Ychwanegodd nad oedd yr amcanion hyn yn annibynnol ar ei gilydd yn anffodus. Byddai cynnydd bach yn y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf yn ychwanegu at y problemau cyllidebol yn y dyfodol, ac i'r gwrthwyneb, byddai cynnydd mawr yn y Dreth Gyngor, er yn gymorth o ran cynllunio cyllidebol yn y dyfodol a chynnal gwasanaethau, yn cosbi talwyr presennol y Dreth Gyngor yn ormodol.

Roedd o'r farn fod y cynlluniau gwariant a gyflwynwyd i'r Cyngor gyda chynnydd o 2.50% yn y Dreth Gyngor, a oedd yn debygol o fod yn llai na llawer ar hyd a lled Cymru, yn gydbwysedd teg rhwng yr holl amcanion hyn. Fodd bynnag pwysleisiodd, er mwyn cyflawni hyn, fod gweddillau wedi eu gadael unwaith eto ar y lefel isaf y gallai'r Cyfarwyddwr ei chefnogi, ac yr oeddim wedi rhagdybio y byddai arbedion effeithlonwyd sylweddol. Dyma oedd dau yn unig o'r risgiau oedd wedi eu cynnwys yn y strategaeth a byddai'n rhaid i unrhyw orwariannau neu wasgbwyntiau posibl ar wasanaethau gael eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi oedd gan yr Awdurdod a phwysleisiodd bod angen cymryd gofal mawr wrth ystyried defnyddio cronfeydd o'r fath at ddibenion heblaw am y rheiny yr oeddent wedi eu creu ar eu cyfer, oherwydd gallai gwneud hynny beri i'r Awdurdod orfod ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol yn y dyfodol nad oeddent wedi eu cyllido.

I gloi, bu i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ddiolch i'r cyhoedd am ymateb mor gadarnhaol i'r ymgynghoriad a chanmol gwaith diflino'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r holl swyddogion oedd yn gysylltiedig â llunio'r gyllideb, gan gyfeirio at eu cymorth o ran cynnal perfformiad y Cyngor a darparu gwasanaethau am gost resymol i'r trethdalwr.

Yna fe gynigiodd argymhellion y Bwrdd Gweithredol o ran Strategaeth Cyllideb 2017/18, y cynnydd o 2.50% yn y Dreth Gyngor a chymeradwyo'r cynllun ariannol tymor canolig fel sylfaen ar gyfer cynllunio ariannol yn y dyfodol. Eiliwyd y Cynnig.

Yna cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant canlynol:-

Cynyddu'r Dreth Gyngor i 4.5% er mwyn gweithredu'r cynigion canlynol:

- cyfrannu £400,000 at y gyllideb addysg ar yr amod bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu dyraniad staff yr ysgolion mwyaf anghenus;
- gwaredu'r toriad o £70,000 i Anghenion Addysgol Arbennig
- buddsoddi £150,000 i ddechrau mentrau busnes newydd, i'w adnewyddu'n flynyddol drwy'r Dreth Gyngor;
- mynd â £100,000 y flwyddyn o'r Dreth Gyngor i ehangu a gwella'r cynllun parcio a theithio yn Ysbyty Glangwili;
- buddsoddi £250,000 o'r Dreth Gyngor i gynyddu staff yn yr Adrannau Tiroedd a Glanhau;
- gwaredu'r gostyngiad o £10,000 yn y gyllideb ar gyfer brecwast am ddim;
- tynnu'n ôl y cynnydd ym mhris prydau ysgol ar gost o £100,000 i'r gyllideb refeniw;
- rhoi £25,000 i'r gyllideb o'r Dreth Gyngor i gyllido cynlluniau peilot i edrych ar ffyrdd o fwydo plant a thynnu'r pwysau oddi ar rieni;
- tynnu'n ôl y gostyngiad o £30,000 mewn cyllid craidd ar gyfer y gwasanaeth cerdd mewn ysgolion;
- tynnu'n ôl y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer hebryngwyr ysgol ar gost o £55,000;
- tynnu'n ôl y lleihad arfaethedig mewn llyfrgelloedd ar gost o £30,000;
- neilltuo £60,000 o'r Dreth Gyngor i wneud iawn am y diffyg yr oedd ei angen i gynyddu darpariaeth wardiau ar y safle mewn Cynlluniau Tai Gwarchod;
- gwaredu'r toriadau arfaethedig o ran gofal cartref dau ofalwr ar gost o £100,000;
- gwaredu'r toriadau o'r ddwy raglen ailalluogi ar gost o £30,000 a £50,000;
- gwaredu'r toriad arfaethedig o £20,000 i'r gwasanaeth Pryd ar Glud o'r gyllideb;
- gwneud buddsoddiad o £60,000 ar gyfer staff ychwanegol cysylltiedig â'r Adrannau Tai a Chyfrifon i ddarparu cyngor ar hawliadau fudd-daliadau ac ati.
- neilltuo swm o £30,000 ar gyfer rhywun i gydlyn data a ddadansoddir;
- neilltuo buddsoddiad o £30,000 yn flynyddol i dîm TIC i'w alluogi i gydweithio â'r Undebau.

Amlinellwyd y rhesymau dros y gwelliannau hyn gan y cynigydd a'r eilydd.

Yn sgil cael cais gan fwy na 10 o aelodau, yn unol â Rheol 16.4 o Weithdrefnau'r Cyngor, cynhalwyd pleidlais gofnodedig ynghylch y gwelliannau gyda'r pleidleisiau yn cael eu bwrw fel a ganlyn:-

O blaid y Gwelliant (19)

Y Cyngorwyr D.J.R.Bartlett, S.M. Caiach, A.P. Cooper, D.M. Cundy, S.L. Davies, T Devichand, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, D.C. Evans, C.P. Higgins, J.D. James, A.W. Jones, K. Madge, E. Morgan, B.A.L. Roberts, M.K. Thomas, R. Thomas, W.G. Thomas a J. Williams

Yn erbyn y Gwelliant (41)

Y Cyngorwyr S.M. Allen, C.A. Campbell, J.M. Charles, A. Davies, D.B. Davies, G. Davies, I.W. Davies, W.R.A. Davies, T.T. Defis, E. Dole, L.D. Evans, W.J.W. Evans, W.T. Evans, M. Gravell, A.D. Harries, W.G. Hopkins, J.K. Howell, P.

Hughes Griffiths, P.M. Hughes, I.J. Jackson, A. James, D.M. Jenkins, G.O. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, D.J.R. Llewellyn, J. Owen, P.A. Palmer, D.W.H. Richards, A.D.T. Speake, L.M. Stephens, E.G. Thomas, G.B. Thomas, J. Thomas, S.E. Thomas, D. Tomos, J. Tremlett, D.E. Williams, J.E. Williams a J.S. Williams

Ymataliadau (1)

Y Cyngorydd J.P. Jenkins

PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Gwelliant i'r Cynnig.

Yna pleidleisiodd y Cyngor ar y Cynnig terfynol a

PHENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynnig a mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

"10.1 cymeradwyo Strategaeth Cyllideb 2017/18, yn amodol ar y gwelliannau canlynol:-

10.1.1 bod y cynnig mewn perthynas â grantiau i'r sector gwirfoddol yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod hirach o amser a bod £135k o'r gostyngiad arfaethedig yn cael ei wrthdroi a bod gostyngiad o £35k fesul blwyddyn yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd nesaf, gan ddechrau yn 2017/18;

10.1.2 bod y cynnig i drosglwyddo neu gau Canolfan Hamdden Sanclér yn cael ei ailystyried a fyddai'n golygu tynnu'r arbedion 3 blynedd o £96k yn eu hól, yr oedd £16k o'r arbedion hynny mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2017/18;

10.1.3 bod yr arbedion arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth leuenctid mewn perthynas â Chanolfan y Cei, Caerfyddin yn cael eu haneru a fyddai'n caniatáu £10k yn ychwanegol i gefnogi'r Gwasanaeth leuenctid;

10.1.4 ychwanegu £1.76m at y Gyllideb Ysgolion Dirprwyedig a fyddai'n sicrhau ei bod mewn sefyllfa niwtral yn ariannol eto;

10.2 Bod y Dreth Gyngor Band D ar gyfer 2017/18 i'w gosod ar £1,145.61 (cynnydd o 2.50% ar gyfer 2017/18);

10.3 Bod y cynllun ariannol tymor canolig dros dro (gan gynnwys y newidiadau a nodwyd uchod) yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod."

11. GOHIRIAD

Am 1.00 p.m. tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9.1 o Weithdrefn y Cyngor sef "Hyd Cyfarfodydd" ac oherwydd bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr

PENDERFYNWYD y dylid gohirio'r materion a oedd yn weddill ar yr agenda tan 2.00 p.m. y diwrnod hwnnw.

12. Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL

Ailymgynullodd y Cyngor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 2.00 p.m.

YN BRESENNOL : Y Cyngorydd E. Morgan [Cadeirydd]

Cynghorwyr:

S.M. Allen	E. Dole	J.D. James	G.B. Thomas
D.J.R. Bartlett	J.S. Edmunds	D.M. Jenkins	J. Thomas
S.M. Caiach	P.M. Edwards	A.W. Jones	M.K. Thomas
C.A. Campbell	D.C. Evans	G.O. Jones	R. Thomas
J.M. Charles	L.D. Evans	H.I. Jones	W.G. Thomas
A.P. Cooper	W.T. Evans	M.J.A. Lewis	J. Tremlett
D.M. Cundy	M. Gravell	K. Madge	D.E. Williams
A. Davies	A.D. Harries	P.A. Palmer	J.E. Williams
D.B. Davies	C.P. Higgins	D.W.H. Richards	J.S. Williams
G. Davies	J.K. Howell	B.A.L. Roberts	
S.L. Davies	P. Hughes Griffiths	A.D.T. Speake	
T. Devichand	I.J. Jackson	L.M. Stephens	

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:-

- Mr M. James - Y Prif Weithredwr
Mr C. Moore - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mr G. Morgans - Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Dros Dro
Mr O. Bowen - Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
Mr J. Fearn - Pennaeth Eiddo
Ms L. Quelch - Pennaeth Cynllunio
Ms L. Rees Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr R. Staines - Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Mr P. Thomas - Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)
Mrs W. Walters - Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
Mrs M. Evans Thomas - Pen-swyddog Gwasanaethau Democratiaidd

13. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) 2017/18 - 2021/22

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017 (gweler Cofnod 6), wedi ystyried y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd am y cyfnod rhwng 2016/17 a 2020/21, a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, am y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a adlewyrchai'r Strategaeth Gorfforaethol bresennol ac a gefnogai blaenoriaethau a dyheadau strategol yr Awdurdod.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wybod i'r Cyngor fod y rhaglen gyfalaf yn rhagweld gwariant amcangyfrifedig o fwy na £210m dros y 5 mlynedd, ac eglurodd taw'r nod oedd cyflawni nifer o brosiectau allweddol er mwyn creu swyddi a gwella ansawdd bywyd pobl Sir Gaerfyrddin.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wrth y Cyngor fod y cyllid ar gyfer y rhaglen hon tua £124m ar hyn o bryd a bod £85m arall yn dod o gyrrf cyllid grant allanol. Fel yn achos y gyllideb refeniw, roedd Llywodraeth Cymru ond wedi darparu ffigurau setliad am flwyddyn, ac felly roedd y rhaglen wedi'i seilio ar fenthyca â chymorth yn y dyfodol a grant cyffredinol ar yr un lefel â 2017/18.

Er bod sylfaen y rhaglen gyfalaf yn rhaglen dreigl, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a oedd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn meysydd fel Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Priffyrrd, Adfywio a Thai, mae'r Awdurdod unwaith yn rhagor wedi gallu cynnwys rhai prosiectau a blaenoriaethau newydd yn y rhaglen yr oedd o'r farn eu bod yn bwysig i'r sir. Roedd clustnodi cyllid ar gyfer y prosiectau ychwanegol hyn yn y rhaglen gyfalaf wedi bod yn her eleni, ac yn enwedig y gwaith brys roedd angen ei wneud yn Harbwr Porth Tywyn. Fodd bynnag, roedd adolygu'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw wedi helpu gyda'r cyllid ychwanegol hwn.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y byddai monitro'r cynlluniau a'r cyllid yn hanfodol wrth symud ymlaen ac y byddai angen rheoli hynny'n ofalus. Roedd yn falch o gael dweud bod y rhaglen, fel roedd wedi'i chyflwyno, wedi'i chyllido'n llawn hyd at 2020/21 gyda diffyg bach yn unig ym mlwyddyn olaf y rhaglen, sef 2021/22.

Yna fe gynigiodd argymhellion y Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) a'r cyllid arfaethedig ar ei chyfer, yn unol â manylion yr adroddiad. Eiliwyd y Cynnig.

Gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Mynegwyd pryder nad oedd digon o arian wedi'i neilltuo yn natganiadau'r gyllideb i gefnogi a darparu ar gyfer y 30,000 o bobl yr oedd disgwyl iddynt symud i mewn i'r sir dros y 4 blynedd nesaf, fel y cytunwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Mynegwyd pryder fod yr ysgol gynradd newydd oedd i'w chodi yn Nyffryn Aman wedi'i hisraddio pan oedd angen dirfawr amdani;
- Cyfeiriwyd at y seilwaith priffyrrd a mynegwyd pryder nad oedd rhagor o fuddsoddiad wedi'i neilltuo at y diben hwn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

"13.1 Bod y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a'r cyllid, fel y'i nodwyd yn Atodiad B, gyda 2017/18 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2018/19 a 2021/22 yn gyllidebau amhendant/dangosol, yn cael eu cymeradwyo;
13.2 Bod cyllideb 2021/22 yn cael ei hadolygu dros y flwyddyn i ddod er mwyn ymdrin â'r diffyg yn y cyllid;
13.3 Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid Cyngor Sir neu allanol disgwyliedig."

14. CYFRIF CYLLIDEB REFENIW TAI 2017/18 - 2019/20 A LEFELAU RHENTI TAI 2017/18

Hysbyswyd y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017 (gweler Cofnod 7), wedi ystyried Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2017/18 hyd at 2019/20 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2017/18 a'i fod wedi gwneud nifer o

argymhellion, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, ar gynigion y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaif ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai 2017 hyd at 2020. Roedd yn adleisio nodau'r Awdurdod yn y Cynllun Busnes 3 blynedd 2017/18 hyd at 2019/20, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyddin a Mwy (CHS+) a'n Strategaeth Tai Fforddiadwy.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y buddsoddiad cyfalaif o £231m yn y cynllun busnes presennol wedi sicrhau bod ein tenantiaid yn elwa ar Safon Tai Sir Gaerfyddin a Mwy, ac wrth gamu ymlaen roedd y gyllideb wedi cael ei llunio mewn modd oedd yn gofalu bod y cyllid priodol yn cael ei ddyrrannu er mwyn cynnal Safon Tai Sir Gaerfyddin a Mwy yn achos holl eiddo'r Cyngor i'r dyfodol. Dros y 5 mlynedd nesaf roedd yn cael ei ragweld y byddai tua £50m yn cael ei wario ar gynnal a gwella ein stoc. Hefyd roedd y gyllideb yn darparu cyllid o ryw £36m dros y 5 mlynedd nesaf i gefnogi'r Strategaeth Tai Fforddiadwy, a fydd yn gweld cynnydd yng nghyflenwad tai fforddiadwy ar hyd a lled y sir drwy wahanol atebion gan gynnwys y rhaglen adeiladu tai newydd a'r cynllun prynu'n ôl.

Egluodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod, ers 2015, fabwysiadu Polisi Cysoni Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a olygai bod y cynnydd arfaethedig mewn rhent oedd gerbron yr aelodau wedi'i ragnodi gan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Byddai'r codiadau arfaethedig hyn yn golygu y byddai'r cynnydd cyfartalog mewn rhent ar gyfer y sir yn £2.84 yr wythnos, a byddai angen i'r Awdurdod barhau â'r polisi hwn gan Lywodraeth Cymru nes i'r eiddo gyrraedd y rhent targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegodd, yn achos Sir Gaerfyddin, mai ein rhent targed pwynt canol cyfartalog ar gyfer y flwyddyn nesaf oedd £84.67, a phe byddai argymhellion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, byddai ein rhent cyfartalog yn £81.77, a oedd ychydig yn is na'r rhent targed pwynt canol.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn anodd cael cydbwysedd rhwng effaith y cynnydd mewn rhent ar denantiaid a'r angen i bennu'r rhent yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr Awdurdod yn gallu parhau i gynhyrchu cynllun busnes cynaliadwy ar gyfer bwrw ymlaen â Safon Tai Sir Gaerfyddin a Mwy a'r Strategaeth Tai Fforddiadwy.

Wrth gynnig yr argymhellion yn yr adroddiad, dywedodd fod y Pwyllgor Craffu - Cymunedau wedi cefnogi'r cynigion yn unfrydol yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2017.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

"14.1 Cynyddu'r rhent yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru h.y.:-

- **Bydd eiddo 'rhenti targed' yn cynyddu 2.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1.5%)**
- **Yn achos eiddo lle mae'r rhent yn is na'r targed rhent, bydd y rhent yn cynyddu 2.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1.5%) a cham cynnydd mwyaf o £2**

- Bod yr eiddo a oedd yn uwch na'r targed rhent yn cael eu rhewi hyd nes iddynt ddod yn unol â'r targed

Gan arwain felly at gynnydd yn y rhent ar gyfartaledd o £2.84, at gynllun busnes cynaliadwy, at gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ac at ddarparu adnoddau i'r Rhaglen Tai Fforddiadwy;

- 14.2 Parhau â'r cynnydd mwyaf posibl o £2 ar gyfer rhenti sy'n is na'r targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed;
- 14.3 Codi rhent garejis i £9.00 yr wythnos (o £8.75 yn 2016/17) a chodi'r rhent am seiliau garejis i £2.25 yr wythnos yr wythnos (o £2.20 yn 2016/17);
- 14.4 Rhoi'r polisi taliadau am wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael budd o wasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;
- 14.5 Cynyddu'r taliadau am ddefnyddio ein gweithfeydd trin carthffosiaeth yn unol â'r cynnydd mewn rhent;
- 14.6 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllid perthnasol ar gyfer 2017/18 a'r gwariant dangosol ar gyfer 2018/19 hyd at 2021/22 fel y'u nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad;
- 14.7 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2017/20 (cyllidebau amhendant yw rhai 2018/19 a 2019/20), fel y nodwyd yn Atodiad B."

15. SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (STSG+) "DARPARU'R PETHAU PWYSIG" - CYNLLUN BUSNES 2017-20;

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror, 2017 (gweler cofnod 8) wedi ystyried Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) "Cyflawni'r Hyn sydd o Bwys" 2017-20, yr oedd ei ddiben fel a ganlyn:-

- egluro gweledigaeth a manylion Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf, a'r hyn y mae'r Safon yn ei olygu i'r tenantiaid;
- cadarnhau'r proffil ariannol, yn seiliiedig ar y rhagdybiaethau presennol, ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf; a
- llunio cynllun busnes y cais blynnyddol i Lywodraeth Cymru am Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA), 2017/18, sy'n gyfwerth â £6.1m.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai pe bai'r adroddiad a'i argymhellion yn cael eu mabwysiadu, byddai'n arwain at wario rhyw £55m dros y tair blynedd nesaf ar gynnal a chadw a gwella ymhellach gynllun Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (£25m) a darparu'r Cynllun Tai Fforddiadwy (£30m) drwy ystod o ddatrysiau gan gynnwys tai newydd.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

- “15.1 Cadarnhau gweledigaeth Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, ynghyd â'r rhaglen ariannol a chyflawni ar gyfer y tair blynedd nesaf;
- 15.2 Cadarnhau bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.”

16. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2017-18

Hysbyswyd y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017 (gweler Cofnod 9), wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wrth y Cyngor fod yn rhaid i'r Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisiau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwnneud â hi. Hefyd, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. .

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

- "16.1 Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;**
- 16.2 Bod y Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo."**

17. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT - CANOL TREF LLANELLI

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017 (gweler Cofnod 13), wedi ystyried adroddiad ar gynigion drafft i gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli gyda'r nod o adlewyrchu'r amcanion adfywio corfforaethol ar gyfer canol y dref, ac ar yr un pryd sicrhau bod y materion ynghylch bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref yn cael ystyriaeth briodol gan ddefnyddio darpariaethau'r polisi cynllunio cenedlaethol.

Petai'r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno, byddai'n caniatáu ystod o ddefnyddiau o fewn ardal ofodol benodol heb angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn amodol ar yr Awdurdod yn rhoi 'tystysgrif cydymffurfiaeth'.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

- "17.1 Bod yr adroddiad, a chwmpas y Gorchymyn Datblygu Lleol arfaethedig yn cael eu cymeradwyo i'w hystyried drwy gyfrwng y broses adrodd ddemocrataidd;**
- 17.2 Cymeradwyo cyhoeddi'r Gorchymyn Datblygu Lleol terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos o leiaf;**
- 17.3 Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i swyddogion baratoi tystiolaeth i gefnogi'r Gorchymyn Datblygu Lleol;**
- 17.4 Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i swyddogion wneud mân newidiadau golygyddol a ffeithiol i'r Gorchymyn Datblygu Lleol."**

18. Y BWRDD GWEITHREDOL - 23AIN IONAWR, 2017

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr J.S. Edmunds, D.C. Evans, L.D. Evans, P. Hughes Griffiths, G.O. Jones, H.B. Shepardson, J. Thomas a D.O. Tomos wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiad y cyfarfod uchod yn cael ei dderbyn.

19. Y BWRDD GWEITHREDOL - 6ED CHWEFROR, 2017

Capital Expenditure on the Modernising Education Programme (MEP) and Local Government Borrowing Initiative (LGBI) 21st Century Schools is classed as Unsupported Borrowing. It is estimated that asset lives within these programmes are 30 years and this is the period that will be used to determine the MRP.

Asset lives within the Fleet Programme range from 1 to 10 years, these are the periods that will be used to determine the MRP.

Local Government Borrowing Initiative (LGBI) Highways. It is estimated that asset lives within this programme are 20 years and this is the period that will be used to determine the MRP.
- **Housing Revenue Account**
The calculation is based on 2% of the opening Capital Financing Requirement (CFR) each year

2. WALES AUDIT OFFICE GUIDANCE

- 2.1. The Assistant Auditor General (AAG) for Wales in his letter to all Local Authorities in Wales, dated 7th January 2016, advised that where an amendment to current MRP policy is being considered, a Local Authority should take account of 'The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015' (the Act). This is because an amendment from the 4% reducing balance methodology to one based on asset lives will invariably result in a reduced MRP charge in the short-term but an increased MRP charge in the longer term.

2.2. In complying with the Act a Local Authority must ensure that its decisions are sustainable, whereby “the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs”, and recognise “the importance of balancing short term needs with the need to safeguard the ability to meet long term needs”.

2.3. In addition the AAG advised that those Local Authorities wishing to amend their current MRP Policy should demonstrate that:

- The lower charge more accurately reflects the lives of assets employed by the authority; or
- The lower charge is reasonably commensurate with the period implicit in the determination of Revenue Support Grant (i.e. a 4% reducing balance basis).

3. PRUDENT PROVISION

3.1. The Director Of Corporate Services informed Council on 22nd February 2017 of the ongoing review into the basis of the MRP, and that discussions were being held with the Wales Audit Office (WAO) in reviewing the procedural aspects, and in determining whether the proposeals are considered prudent.

The basis of the proposal is for the ‘Asset Life’ method to be applied to all supported borrowing including capital expenditure incurred before 1st April 2008.

3.2. The proposed amendment to the MRP Policy is based on the following methodology, discussed with the WAO:

- For the supported borrowing, including capital expenditure incurred before 1st April 2008, the charge to revenue will be over 40 years by the straight line method, which is commensurate with the average of existing asset useful economic lives. In essence this replaces the 4% reducing balance method by a 2.5% straight line method. This can be considered a more prudent approach than the current provision because it introduces a more certain period for eliminating the debt liability.
- The Authority’s property valuer has reviewed the asset portfolio supported by the current debt and calculated the expected current average lives at some 39.2 years.
- For unsupported borrowing, the charge to revenue will be over 40 years by the straight line method, or over the estimated economic life of the asset if that is less than 40 years.
- Asset lives within the Fleet Programme range from 1 to 10 years, and these periods will continue to be used to determine the MRP

- Local Government Borrowing Initiative (LGBI) Highways. It is estimated that asset lives within this programme are 20 years and this is the period that will be used to determine the MRP.
- For the Housing Revenue Account, the calculation will remain at 2% of the opening capital Financing requirement (CFR) each year up until April 2021 following which the MRP on new expenditure will need to be on the Asset life or the Depreciation method in line with the new Item 8 determination issued by Welsh government following the exit of the subsidy system.

3.3 The implications of the proposed amended MRP Policy for the 50 year period which applies to the Council Fund supported and unsupported borrowing 2016/17 to 2065/66 is outlined in Appendix 1 and summarised in Table 1 for 2016/17 to 2020/21, with 2019/20 being the final year of the current 3 year Medium Term Financial Plan.

Table 1 – Implications of Proposed Amended MRP

Financial Year	Estimated Current MRP £'000	Proposed Amended MRP £'000	Difference £'000
2016/17	7,733	4,833	-2,900
2017/18	7,423	4,833	-2,590
2018/19	7,126	4,833	-2,293
2019/20	6,841	4,833	-2,008

The table reflects the MRP on the existing borrowing only. There will be additional savings on the MRP charges in the initial years of new future borrowings.

3.4 It is evident from Table 1 that significant financial savings averaging £2.5 million per annum are anticipated over the period 2016/17 to 2019/20 arising from the proposed amendment to the MRP Policy.

3.5 In addressing the AAG's requirements in respect of the Act, the following should be noted from Appendix 1 in respect of the proposed amendment to the MRP Policy:

- A reduced charge to revenue is projected for the period 2016/17 to 2027/28
- An increased charge to revenue is projected for the period 2028/29 to 2055/56
- A reduced charge to revenue per annum is projected from 2056/57

- In respect of opening CFR debts as at 31/3/16, by the 4% reducing balance method, even after 100 years a liability of £3.261m still remains whereas with the 2.5% straight line method the debt is totally extinguished by 2055/56 (i.e. in 40 years)

In conclusion, the proposed amendment to the MRP Policy determines a more prudent annual charge to revenue whilst acknowledging the Council's responsibility to its current and future citizens in responding to the requirements of the Act. Appendix 1 clearly demonstrates that by applying the proposed average asset useful economic life of 40 years on a straight line basis to supported borrowing including capital expenditure incurred before 1st April 2008, this historic liability is actually extinguished after 40 years instead of leaving a residual debt balance for citizens 100 years plus into the future. This residual liability will mean that future citizens will be required to finance this historic debt, at the expense of real services making a real difference to citizens' lives.

- 3.6 In responding to the AAG's requirement in paragraph 2.3, the periodic valuation of the Council's fixed assets demonstrates that an average useful life of 40 years is prudent since it reflects current and future useful economic lives. In addition, a maximum useful life of 40 years for infrastructure assets is consistent with other Local Authorities.
- 3.7 Although discussions with the WAO remain ongoing it is recognised that the Council's amendment proposal is both prudent and sensitive to the well-being of future generations. The WAO however, has indicated that although it is not minded to challenge the proposed amendment to the MRP Policy, any new information prior to the certification of the annual accounts for the 2016/17 financial year may result in the proposed amendment not being supported.

4. FINANCIAL IMPLICATIONS

- 4.1.** For the 2016/17 financial year and for the period of the Medium Term Financial Plan 2017/18 to 2019/20, revenue savings of circa £2.5 million per annum are projected.
- 4.2.** Annual revenue savings will continue to be realised until the 2027/28 financial year following which an increased charge to revenue is evident until the 2055/56 financial year before annual savings are again realised from the 2056/57 financial year.

5. RECOMMENDATION(S)

- 5.1.** An amendment to the current MRP Policy, to one supporting a more prudent annual provision, be approved on the following basis:


- 5.1.1. Supported borrowing and expenditure incurred before 1st April 2008, as at 31st march 2016 – charged to revenue over 40 years on a straight line basis, and this policy be implemented for the 2016-2017 accounts and for the Revenue Budget Strategy 2017-2018 to 2019-2020.
- 5.1.2. Unsupported Borrowing - the future borrowing value is charged to revenue over 40 years or by the estimated economic life of the asset if shorter.
- 5.1.3. The MRP policy for the local Government Borrowing Initiative (LGBI) Highways and for the fleet programme to remain as currently approved

Appendix A

Existing CFR ONLY (excludes LGBI, MEP and HRA)

Year Ended	CFR	MRP 4% on Reducing Balance	CFR	MRP 2.5% Straight Line	Difference
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
31/03/2016	193,316	7,733	193,316	4,833	-2,900
31/03/2017	185,583	7,423	188,483	4,833	-2,590
31/03/2018	178,160	7,126	183,650	4,833	-2,294
31/03/2019	171,034	6,841	178,817	4,833	-2,008
31/03/2020	164,192	6,568	173,984	4,833	-1,735
31/03/2021	157,625	6,305	169,152	4,833	-1,472
31/03/2022	151,320	6,053	164,319	4,833	-1,220
31/03/2023	145,267	5,811	159,486	4,833	-978
31/03/2024	139,456	5,578	154,653	4,833	-745
31/03/2025	133,878	5,355	149,820	4,833	-522
31/03/2026	128,523	5,141	144,987	4,833	-308
31/03/2027	123,382	4,935	140,154	4,833	-102
31/03/2028	118,447	4,738	135,321	4,833	95
31/03/2029	113,709	4,548	130,488	4,833	285
31/03/2030	109,160	4,366	125,655	4,833	466
31/03/2031	104,794	4,192	120,823	4,833	641
31/03/2032	100,602	4,024	115,990	4,833	809
31/03/2033	96,578	3,863	111,157	4,833	970
31/03/2034	92,715	3,709	106,324	4,833	1,124
31/03/2035	89,006	3,560	101,491	4,833	1,273
31/03/2036	85,446	3,418	96,658	4,833	1,415
31/03/2037	82,028	3,281	91,825	4,833	1,552
31/03/2038	78,747	3,150	86,992	4,833	1,683
31/03/2039	75,597	3,024	82,159	4,833	1,809
31/03/2040	72,573	2,903	77,326	4,833	1,930
31/03/2041	69,670	2,787	72,494	4,833	2,046
31/03/2042	66,884	2,675	67,661	4,833	2,158
31/03/2043	64,208	2,568	62,828	4,833	2,265
31/03/2044	61,640	2,466	57,995	4,833	2,367
31/03/2045	59,174	2,367	53,162	4,833	2,466
31/03/2046	56,807	2,272	48,329	4,833	2,561
31/03/2047	54,535	2,181	43,496	4,833	2,651
31/03/2048	52,354	2,094	38,663	4,833	2,739
31/03/2049	50,260	2,010	33,830	4,833	2,823
31/03/2050	48,249	1,930	28,997	4,833	2,903
31/03/2051	46,319	1,853	24,165	4,833	2,980
31/03/2052	44,466	1,779	19,332	4,833	3,054

31/03/2053	42,688	1,708	14,499	4,833	3,125
31/03/2054	40,980	1,639	9,666	4,833	3,194
31/03/2055	39,341	1,574	4,833	4,833	3,259
31/03/2056	37,767	1,511	0	0	-1,511
31/03/2057	36,257	1,450	0	0	-1,450
31/03/2058	34,806	1,392	0	0	-1,392
31/03/2059	33,414	1,337	0	0	-1,337
31/03/2060	32,078	1,283	0	0	-1,283
31/03/2061	30,795	1,232	0	0	-1,232
31/03/2062	29,563	1,183	0	0	-1,183
31/03/2063	28,380	1,135	0	0	-1,135
31/03/2064	27,245	1,090	0	0	-1,090
31/03/2065	26,155	1,046	0	0	-1,046



Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd D.M. Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

M. Gravell, G.O. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens and T.J. Jones

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

M. James - Prif Weithredwr
C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans - Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro
J. Morgan - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
R. Mullen - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters - Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
L.R. Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenhull - Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.40 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Dole, H.A.L. Evans, L.D. Evans a J. Tremlett.

Bu i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol gydymdeimlo â'r Cyngorydd H.A.L. Evans a'i theulu ar farwolaeth ei mam.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

3. COFNODION - 6 CHWEFROR 2017

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2017 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Nid oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau. Fodd bynnag, roedd y Cyngorydd D.M. Cundy wedi gofyn am ganiatâd i ofyn cwestiwn mewn perthynas ag eitem rhif 8 ar yr agenda, yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. DRAFFT CYNGOR SIR GAERFYRDDIN - AMCANION LLESIANT 2017/18

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion am Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin 2017/18.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus:-

- Pennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny
- Cyhoeddi datganiad am Amcanion Llesiant
- Cyhoeddi adroddiad blynnyddol ynghylch y cynnydd
- Cyhoeddi ein hymateb i argymhelliaid a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella bob blwyddyn ac ar gyfer 2017/2018 cynigiwyd integreiddio Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau fod yr amcanion wedi cael eu datblygu yn dilyn ymgynghori â phreswylwyr. Roedd yr amcanion drafft hefyd wedi cael eu hystyried yn ystod cyfarfod craffu ar y cyd ac roedd sylwadau Aelodau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mynegwyd pryder gan Aelodau'r Bwrdd fod dyblygu yn sgil datblygu targedau llesiant drwy wahanol ddeddfwriaeth a phrosiectau. Nodwyd bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod yr adroddiad drafft yn cael ei gymeradwyo.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL - CYNLLUN HENEIDDIO'N DDA SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Blynnyddol Sir Gaerfyrddin ar gyfer Cynllun Heneiddio'n Dda 2015/2016. Roedd yr adroddiad (sy'n ofynnol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn) yn rhoi manylion am berfformiad yr Awdurdod o ran y blaenoriaethau canlynol:

- Cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn;
- Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia;
- Atal Codymau;
- Cyfleoedd Cyflogaeth a Sgiliau Newydd;
- Unigrwydd a theimlo'n ynysig.

Mynegodd Aelodau'r Bwrdd bryderon fod rhai pobl oedrannus yn aros yn yr ysbty yn hwy nag sydd ei angen a bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i gyfuno cyllidebau ag iechyd, lle bo'n briodol, i roi sylw i faterion o'r fath. Nododd yr Aelodau fod angen rhoi mwy o bwyslais ar sut i gyflawni'r fath gynlluniau a blaenoriaethau a dysgu

drwy arferion da mewn ardaloedd eraill. Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud rhagor o ymchwil i arferion da.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Blynnyddol ar gyfer Cynllun Heneiddio'n Dda 2015/2016.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16 - GWEITHREDU O RAN Y GYMRAEG

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Blynnyddol 2015/16 ar yr iaith Gymraeg sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y dangosyddion statudol a lleol sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r Cynllun. Dywedwyd y byddai'r safonau yn disodli'r system bresennol o ran cynlluniau iaith Gymraeg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar 30 Medi, 2015, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r safonau erbyn 30 Mawrth, 2016.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol fod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi bod y Cyngor yn perfformio'n dda.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 gofynnodd y Cynghorydd D.M. Cundy faint o leoedd Cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ond sydd heb eu llenwi yn nalgylchoedd addysgol Cyngor Tref Llanelli a Chyngor Gwledig Llanelli ar hyn o bryd, mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, a sut y bydd angen inni ehangu'r ddarpariaeth i gyrraedd ein targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant wybodaeth am nifer y lleoedd Cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a nifer y lleoedd gwag yn ardal Llanelli ar hyn o bryd. Nodwyd bod newidiadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Llanelli yn sgil uno Ysgol Copperworks ac Ysgol Maeslllyn. Mewn perthynas â chyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, eglurwyd bod y Cyngor yn aros am adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghori ynghylch ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9. MODEL BLAENORIAETHU AR GYFER GWELLIANNAU DIOGELWCH FFYRDD AC ISADEILEDD PRIFFYRDD

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad oedd yn amlinellu meinu prawf diwygiedig ar gyfer asesu a blaenoriaethu ceisiadau am welliannau diogelwch ffyrdd ac isadeiledd priffyrrdd. Ar 14 Tachwedd, 2011 roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r meinu prawf presennol ar gyfer asesu, dewis a blaenoriaethu Gwelliannau Diogelwch Ffyrrdd a Gwelliannau Troedffyrrdd a ariannwyd o gyllideb cyfalaf y Cyngor. Roedd yr adroddiad wedi tynnu sylw at y ffaith fod y galw yn uchel ac ar hyn o bryd roedd 355 o geisiadau ar wahân am welliannau isadeiledd priffyrrdd a diogelwch ffyrdd. Roedd y meinu prawf diwygiedig yn cael eu cynnig i ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a sicrhau bod prosiectau a chynlluniau sy'n gwella diogelwch ffyrdd mewn cymunedau yn cael eu blaenoriaethu. Yn ogystal, er mwyn hwyluso cyflawni mân welliannau mae'r adroddiad yn cynnig brigorri'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer mân waith 10%.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r meini prawf ar gyfer asesu a blaenoriaethu ceisiadau am welliannau diogelwch ffyrdd ac isadeiledd priffyrrd.

10. Y TREFNIADAU PARTNERIAETH SYDD WEDI'I SEFYDLU YNG NGORLLEWIN CYMRU O DAN RAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 AC ASESIAD POBLOGAETH GORLLEWIN CYMRU.

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth am ofynion statudol trefniadau partneriaeth o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd y rhain yn cynnwys creu Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar ôl troed Byrddau lechyd Lleol. Roedd yn rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau lechyd a gofal cymdeithasol a hyrwyddo sefydlu croneydd ar y cyd lle bo'n briodol i gefnogi integreiddio. O dan Ran 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) roedd yn ofynnol i bartneriaid statudol gyhoeddi Asesiad Poblogaeth sy'n nodi'r anghenion am ofal a chymorth yn y rhanbarth, y gofal a chymorth a ddarperir ar hyn o bryd a'r meysydd y mae angen eu gwella a'u datblygu. Mae'n rhaid cynnal Asesiad Poblogaeth yn ystod pob cylch etholiadol ac roedd yn rhaid cyhoeddi'r asesiad cyntaf erbyn 31 Mawrth 2017. Yn hyn o beth, roedd y partneriaid statudol a phartneriaid eraill yn rhanbarth Gorllewin Cymru wedi cydweithio i gynhyrchu Asesiad Poblogaeth cyntaf y rhanbarth, yr oedd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cytuno arno ar 15 Rhagfyr 2016. Roedd y Côd Ymarfer statudol yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r partneriaid statudol gymeradwyo'r Asesiad cyn ei gyhoeddi.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR

10.1 nodi'r gofynion statudol sydd ar waith yng Ngorllewin Cymru o dan Ran 9 O Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r trefniadau partneriaeth i fodloni'r gofynion hyn;

10.2 cymeradwyo cynnwys Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru.

12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

13. CWMNI TAI LLEOL SIR GAERFYRDDIN - YR ACHOS BUSNES

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig yngylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion am ganfyddiadau achos busnes y Cwmni Tai Lleol ac yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer sefydlu'r cwmni y bernir mai hwn oedd y dewis gorau i ychwanegu'n sylweddol at ddarparu tai fforddiadwy i'w gwerthu a'u gosod. Roedd Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2016-21, a gytunwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016, yn ymrwymo i ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 13.1 Cadarnhau bod yr achos busnes ar gyfer sefydlu'r Cwmni Tai Lleol yn opsiwn ymarferol ac y byddai'n ychwanegu'n sylweddol at gyflawni Ymrwymiad Tai Fforddiadwy y Cyngor o ran darparu rhagor o dai i'w gwerthu a'u gosod;**
- 13.2 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion sefydlu'r cwmni tai lleol, ei strwythurau llywodraethu a chynllun busnes manwl pum mlynedd o hyd;**
- 13.3 awdurdodi swyddogion i gomisiynu cymorth allanol arbenigol wrth sefydlu'r cwmni tai lleol ac wrth ddatblygu'r strwythurau llywodraethu a'r cynllun busnes manwl, a hynny mewn perthynas â materion cyfreithiol, ariannol a thechnegol.**

14. DATBLYGU ORIEL MYRDDIN - HEOL Y BRENNIN, CAERFYRDDIN

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig yngylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y cynigion ar gyfer datblygu Oriel Myrddin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion fel y nodir yn yr adroddiad er mwyn cefnogi datblygu Oriel Myrddin.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 13 Mawrth 2017

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd E. Dole (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens, J. Tremlett, H.A.L. Evans and T.J. Jones

Yn bresennol fel sylwedyddion:-

Y Cynghorwyr D.M. Cundy, T. Devichand a J.S. Edmunds

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

M. James - Prif Weithredwr

J. Morgan - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau

C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

G. Morgans - Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro

R. Mullen - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd

W. Walters - Prif Weithredwr Cynorthwyo (Adfywio a Pholisi)

R. Edgecombe - Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

D. Hockenhull - Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata

S. Murphy - Uwch-gyfreithiwr

S. Walters - Rheolwr Datblygu Economaidd

C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.40 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
G.O. Jones	6 - Maes 3G ym Mharc Waundew, Caerfyrddin	Mae'n gyfarwyddwr ac yn gyn-ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin

3. COFNODION - 27 CHWEFROR 2017

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2017 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. MAES 3G PARC WAUNDEW, CAERFYRDDIN

[SYLWER: Wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd G.O. Jones y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn cefnogi'r gwaith o greu maes 3G ym Mharc Waundew, fel rhan o brosiect cymunedol, trwy gymeradwyo grant o 150k. Tynnwyd sylw at y ffaith fod Parc Waundew yn un o ardaloedd mwyaf heriol Caerfyrddin o ran agweddu cymdeithasol ac economaidd, ac y byddai'r maes 3G newydd o fudd i nifer fawr o grwpiau a sefydliadau lleol.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau wybod i'r Bwrdd fod y rhan fwyaf o'r cyllid eisoes wedi cael ei sicrhau. Amcangyfrifwyd y byddai cyfanswm cost y datblygiad hwn oddetu £560k ac roedd Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin wedi sicrhau gwerth £410k o gyllid o'r ffynonellau canlynol:

- Cymdeithas Bêl-droed Cymru - £350k
- Grantscape - £30k
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - £30k

Gwnaethpwyd cais am i'r Cyngor gefnogi'r diffyg o £150k. Esboniwyd fod angen i'r gwaith gosod ddigwydd yn ystod misoedd yr haf yn 2017 gyda'r gorchymyn yn cael ei gyhoeddi'n gynnar ym mis Ebrill; fel arall, byddai'r cyllid oddi wrth Gymdeithas Pêl-droed Cymru yn cael ei dynnu'n ôl. Nodwyd mai bwriad y clwb oedd helpu i greu buddion ehangach i'r gymuned trwy gynyddu'r defnydd o'u cyfleusterau a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau lleol gan gynnwys ysgolion cynradd, canolfannau teulu, clybiau ieuengtiaid a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; cyfleusterau awyr agored annigonol, os o gwbl, oedd gan y rhan fwyaf o'r rhain.

Dyweddodd yr aelodau fod y clwb wedi gweithio'n galed i sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect a nodwyd fod costau cynnal a chadw'r maes wedi'u cynnwys yn y cyllid. Tynnodd aelodau sylw at y ffaith fod y prosiect yn cyfrannu at amcanion llesiant y Cyngor ac yn darparu cyfleusterau i alluogi pobl i fod yn fwy egniol. Gwnaethpwyd cais am weithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Bro Myrddin er mwyn datblygu eu maes 3G.

CYTUNWYD YN UNFRYDOL i gymeradwyo grant o £150k i gefnogi'r gwaith o greu maes 3G ym Mharc Waundew.

8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

9. CYMORTH ARIANNOL I YMDDIRIEDOLAETH ADFYWIO TREFTADAETH CAMBRIAN/ BLAS LLANELLY

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 8 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig yngylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ar gymorth ariannol i Blas Llanelli. Roedd yn un o bum prosiect adfywio allweddol yng Nghanol Tref Llanelli ac roedd angen cymorth i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau a bod gan y Plas ddyfodol cynaliadwy yn y tymor hir. Roedd pwysigrwydd Plas Llanelli i adfywio Canol Tref Llanelli yn cael ei gydnabod.

Cynigiwyd argymhelliaid ychwanegol, a chytunwyd arno, sef bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau er mwyn cytuno ar amodau'r grant.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 9.1 gymeradwyo grant i gefnogi prosiect yr Ymddiriedolaeth/Plas Llanelly;**
- 9.2 bod tâl am werth y grant yn cael ei godi ar Blas Llanelli am gyfnod penodol o hyd at 5 mlynedd;**
- 9.3 bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am rôl fel sylwedydd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;**
- 9.4 bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau er mwyn cytuno ar amodau'r grant.**

10. CONTRACT TRIN A GWAREDU GWASTRAFF - TREFNIADAU GWAHANOL YN Y DYFODOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 8 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig yngylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).

Cafodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad er mwyn rhoi ystyriaeth i fodolau darparu gwahanol ar gyfer caffael trefniadau trin gwastraff y Cyngor yn y dyfodol yn sgil ystyriaethau atebolwydd/risg ehangach.

CYTUNWYD YN UNFRYDOL i gymeradwyo'r gwaith o ystyried trefniadau caffael gwahanol ar gyfer trefniadau trin gwastraff y Cyngor yn y dyfodol.

11. PROSIECT DENU PENTYWYN

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 8 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghyllch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad ar Brosiect Denu Pentywyn, a oedd yn fenter adfywio yn unol â'r prif gynllun adfywio strategol ar gyfer Pentywyn. Tynnodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden sylw at y ffaith fod y prif gynllun adfywio yn mynd i'r afael â dirywiad ffisegol a masnachol pentref glan môr Pentywyn. Roedd y cynllun yn cael ei symud ymlaen fesul cam, a'i fwriad oedd sefydlu Pentywyn fel cychfan digwyddiadau 12 mis y flwyddyn i ymwelwyr ble byddent yn treulio diwrnod ac yn aros.

Nododd yr aelodau botensial yr ardal a'r camau cadarnhaol a oedd yn cael eu cymryd i'w hadfywio.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 11.1 gymeradwyo'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Prosiect Denu Pentywyn yn unol â'r prif gynllun adfywio strategol ar gyfer Pentywyn;
- 11.2 gymeradwyo'r argymhellion fel y nodir yn yr adroddiad er mwyn cefnogi Prosiect Denu Pentywyn.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Y BWRDD GWEITHREDOL

27^{AIN} MAWRTH 2017

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd E. Dole [Cadeirydd)

Y Cyngorwyr:-

L.D. Evans, H.A.L. Evans, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer,
L.M. Stephens and J. Tremlett

Yn bresennol fel sylwedyddion:-

Y Cyngorydd T. Evans

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:-

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans – Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Dros Dro
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
W. Walters, Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
L. R Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad
D Hockenhull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
J. Jones Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
J Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambrau, Neuadd y Sir, 10.00yb-10.50yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd M. Gravell.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
H.A.L. Evans	9 – Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy – Our Performance	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin
G.O. Jones	15 – Penodi Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol	Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Bro Myrddin

**3. LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION Y CYFARFODYDD A
GYNHALWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

3.1. 23^{AIN} IONAWR, 2017

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd
Gweithredol a gynhalwyd ar 23^{ain} Ionawr, 2017 yn gofnod cywir.

3.2. 13^{EG} MAWRTH, 2017

Nododd y Cadeirydd y dylid newid teitl eitem 3.2 ar yr agenda Saesneg i 13^{eg} Mawrth 2017, yn hytrach na 13^{eg} Chwefror 2017.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 13^{eg} Mawrth, 2017 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw ar gyfer y cyfnod o 1^{af} Ebrill, 2016 hyd at 31^{ain} Rhagfyr, 2016 a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31^{ain} Rhagfyr, 2016 mewn perthynas â 2016/17.

Roedd y sefyllfa gyffredinol a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn nodi gorwariant posibl o £833k gydag amrywiant yr adrannau wedi'u gyllidebu tua £2.3m.

Nodwyd bod y pwysau mwyaf sylweddol yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, ac er bod pwysau ar gyllidebau adrannau eraill roedd y rheiny, yn gyffredinol yn cael eu gwrthbwysio gan danwariant penawdau cyllidebol eraill.

Gwnaed ymholiad ynghylch dileu ôl-ddyledion. Gofynnwyd a oedd camau yn cael eu rhoi ar waith yn gynnar iawn er mwyn ceisio atal y ddyled rhag gwaethygu. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai fod y Tîm Gorfodi wedi gweithio'n agos gyda'r tenantiaid er mwyn lleihau dyled. Yn ogystal, roedd y ddyled a oedd heb ei thalu wedi cyrraedd ei man mwyaf isel. Roedd yr ymgyrchoedd a'r sloganau parhaus megis "Mae Rhent yn Bwysig" hefyd wedi helpu i leihau'r ddyled.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL;

- 6.1 derbyn yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb,**
- 6.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfaeodd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol er mwyn cadw'r gwariant yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd.**

7. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2016-17

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2016/17, fel yr oedd ar 31^{ain} Rhagfyr, 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am y prif amrywiannau a throsglwyddiadau i'w cymeradwyo.

Roedd yr adroddiad yn nodi ar sail y gwariant net a ragwelwyd sef £68m ar brosiectau cyfalaf, roedd amrywiad o £21m. Nododd yr Aelodau'r anawsterau o osod prosiectau cyfalaf yn y blynnyddoedd ariannol, yn aml oherwydd ffactorau allanol sy'n gallu dylanwadu ar amser dechrau'r prosiect a'r amserlen adeiladu. Felly, roedd yr amrywiad yn bennaf oherwydd llithriad y prosiectau rhwng y blynnyddoedd ariannol yn hytrach nag unrhyw newidiadau yn y gost.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn a bod y trosglwyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

8. POLISI INCWM A CHODI TÂL

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y Polisi Incwm a Chodi Tâl Corfforaethol Drafft ar gyfer y Cyngor a fyddai'n cael ei ddefnyddio i danategu datblygu dull mwy strategol a masnachol at brosesau creu incwm ac adenill dyledion y Cyngor.

Nododd yr Aelodau, fel rhan o raglen waith TIC, bod Grŵp Llywio Incwm a Chodi Tâl wedi cael ei sefydlu, gyda'r nod o archwilio'r potensial o gynyddu incwm o ffioedd a thaliadau ac adolygu cadernid y prosesau presennol ar gyfer casglu incwm ac adenill dyledion. Yn o ganfyddiadau cychwynnol y grŵp oedd bod angen mabwysiadu dull mwy strategol tuag at ei weithgareddau casglu incwm a chodi tâl, a fyddai'n cael ei gefnogi drwy gyfrwng Polisi Incwm a Chodi Tâl Corfforaethol.

Roedd y Polisi yn darparu cyfres o egwyddorion allweddol a fyddai'n cael eu defnyddio i danategu dull yr Awdurdod o ran incwm a chodi tâl a datblygu ymhellach dull mwy masnachol tuag at y gweithgareddau hyn. Mae'r polisi newydd yn gosod y disgwyliadau o ran cadernid y prosesau casglu incwm ac adenill dyled.

Roedd ymgynghoriad helaeth ag adrannau mewnol wedi cynorthwyo i ddatblygu'r polisi a'r egwyddorion. Yn ogystal, cafodd y Polisi newydd ei ddrafftio mewn ymateb i astudiaeth ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Lywodraeth Leol: 'Trefniadau Awdurdodau Lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm' a oedd wedi nodi'r angen i bob Awdurdod Lleol Iunio Polisi Incwm a Chodi Tâl.

PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR bod y Polisi Incwm a Chodi Tâl Corfforaethol yn cael ei gymeradwyo.

9. CYNLLUN DARPARU TAI FFORDDIADWY – EIN PERFFORMIAD

[SYLWER: Gan fod y Cyngorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon nid oedd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth].

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad ar y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy a oedd yn cynnwys gwybodaeth am berformiad ar gyfer 2016/17. Roedd y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy wedi gosod targed clir o ddarparu 1,000 o dai ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf.

Nododd y Bwrdd fod y targed a osodwyd i ddarparu 129 o dai fforddiadwy erbyn diwedd chwarter 3 wedi'i ragori gyda bron i 30 o dai. Nodwyd hefyd bod y perfformiad hyd yn hyn eleni yn dangos bod yr Awdurdod ar y trywydd cywir i ragori ar y targed i ddarparu 160 o dai erbyn diwedd 2016/17.

Nodwyd y perfformiad rhagorol a oedd eisoes wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf o ddarparu tai yn 2016/17.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy yn cael ei dderbyn

10. BLAEN-GYNLLUN DEDDF YR AMGYLCHEDD

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar Flaen-gynllun y Cyngor o ran Deddf yr Amgylchedd. Roedd yr adroddiad yn nodi bod rheidrwydd ar holl gyrrif cyhoeddus, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i 'geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth lle bo hynny'n rhan briodol o'u swyddogaethau, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnertheddu ecosystemau'. Roedd y ddyletswydd newydd wedi cael ei henwi yn Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnertheddu Ecosystemau, a oedd yn cryfhau a disodli'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar gyrrif cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2016.

Nodwyd bod y Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i holl awdurdodau cyhoeddus ddarparu Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd, a fyddai'n cynnwys manylion am sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2017, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth. Yn ogystal, yn 2019, byddai'n ofynnol i Awdurdodau adrodd ar sut yr oeddent wedi bodloni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnertheddu Ecosystemau a fyddai'n gwneud awdurdodau cyhoeddus yn fwy cyfrifol am ddangos sut yr oedd eu camau gweithredu wedi cyfrannu at wella bioamrywiaeth ac ecosystemau.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r swyddogion hynny a fu'n rhan o ddatblygu'r cynllun.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL;

10.1 cymeradwyo Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin,

10.2 i adrodd ar gyflawni'r cynllun i Lywodraeth Cymru yn 2019.

11. CYRHAEDDIAD A CHYRHAEDDIAD ADDYSG AWDURDOD LLEOL SIR GAERFYRDDIN 2015-2016

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ar gyrraedd a chyflawniad addysg Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrdin 2015-16. Roedd yr adroddiad cynhwysfawr yn cynnwys y materion allweddol at sylw'r aelodau a oedd yn deillio o'r dadansoddiad o'r data meintiol ac ansoddol mewn perthynas â pherfformiad yr ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16.

Nododd yr aelodau yr Adroddiad ar Berfformiad a Chyflawniad Ysgolion ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2015-16 a oedd wedi'i rannu i 3 adran ac yn cynnwys:-

- Safonau 2015/16 - roedd yr adran hon yn cynnwys crynodeb o asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau disgryblion yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2,3,4 a 5.
- Deilliannau Arolygiadau Ysgolion, roedd yr adran hon yn cynnwys crynodeb o berfformiad yr ysgolion a gafodd arolygiad gan Estyn yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16.
- Datblygu Gwerthoedd a Sgiliau ar gyfer Dysgu Gydol Oes, roedd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang a chyffrous o gyflawniadau disgryblion.

